building for the future adeiladu am y dyfodol

# DATGANIAD POLISI ANSAWDD



## DATGANIAD POLISI ANSAWDD **Atodiad 1**


Mae Lloyd & Gravell Cyf. wedi ymrwymo i ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau o ansawdd sy'n cydymffurfio'n llawn ag anghenion ein cwsmeriaid. Drwy ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n bodloni neu'n rhagori ar ddisgwyliadau cwsmeriaid yn gyson byddwn yn hyrwyddo boddhad cwsmeriaid ac yn y pen draw, cyflawni llwyddiant busnes. Caiff hyn ei gyflawni trwy gymhwyso system ansawdd yn gyson, gyda'r prif amcanion o:

- Wneud pethau'n iawn y tro cyntaf, bob tro.
- Gwella ansawdd ein cynhyrchion a'n gwasanaethau yn barhaus.
- Cynnal perthnasoedd gwaith da gyda chwsmeriaid a chyflenwyr.
- Cynnal dealltwriaeth gweithwyr ynghylch y system ansawdd.
- Hyrwyddo amgylchedd o welliant parhaus ym mhob agwedd ar weithrediadau'r Cwmni.

Mae hyn yn gofyn am fabwysiadu gweithdrefnau ar draws y Cwmni sy'n canolbwyntio ar ddiwallu gofynion cwsmeriaid pob adrannau. Fe'i cyflawnir drwy:

- Adnabod a deall gofynion cwsmeriaid a sicrhau bod pob gweithiwr yn ymwybodol o'u pwysigrwydd ar gyfer llwyddiant y Cwmni.
- Gosod a chadw golwg ar amcanion rheoli sy'n rhoi ffocws ar welliannau perfformiad a gwella boddhad cwsmer.
- Meithrin diwylliant sy'n annog adnabod problemau yn gynnar a mabwysiadu gweithredu cywiro a rhagofalus effeithiol ac effeithlon.
- Darparu adnoddau ariannol a chorfforol digonol i gefnogi gweithredu llawn y polisi.
- Darparu hyfforddiant ac addysg i bob un o'n gweithwyr i sicrhau eu bod yn deall ac yn gymwys i gyflawni eu rôl ac i wella eu perfformiad.
- Cyfathrebu'n agored gyda gweithwyr, is-gontractwyr a chleientiaid ar faterion ansawdd, gan eu hannog i gymryd rhan a chyfrannu at welliannau perfformiad.
- Cynllunio a gweithredu gwaith i gyfarfod gofynion y cwsmer yn y ffordd fwyaf cost effeithiol ac effeithlon.
- Adolygu a diwygio'r polisi a'r gweithdrefnau o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae’r Tîm Rheoli yn gyfrifol am ddatblygu, monitro a gweithredu gweithdrefnau yn eu maes cyfrifoldeb ac am sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei ddeall a'i weithredu ar draws y Cwmni. Mae gan bob gweithwyr gyfrifoldeb am ansawdd eu gwaith eu hunain ac am gyfrannu at welliannau yn ein cynhyrchion, gwasanaethau a phrosesau rheoli.
Bydd y polisi hwn yn cael ei arddangos yn amlwg ar draws y Cwmni ac fe gaiff ei wneud ar gael yn allanol i bob parti sydd â diddordeb ar gais. Bydd yn cael ei gadw'n gyfredol ac fe'i diwygir i addasu i unrhyw newidiadau yn nhrefn neu natur gweithgareddau'r Cwmni. Bydd Lloyd & Gravell yn adolygu ac yn diweddaru ei Bolisi Ansawdd a dogfennau cysylltiedig yn unol ag unrhyw arloesedd technolegol ac ymylon y farchnad.



Robert Charles,
**Cyfarwyddwr Rheoli.**